# Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector

Dydd Iau 7 Tachwedd 2024, 10:00 i 12:30

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | | |
| Lauren | Caley | LC | Shelter Cymru |
| Mal | Colley | MC | Gofal Canser Tenovus |
| Angela | Endicott | AE | Llywodraeth Cymru |
| Carys | Moseley | CM | Cytûn |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Hade | Turkmen | HT | Oxfam Cymru |
| Steffan | Wiliam | SW | Cymen (**Cyfieithydd**) |
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |
| Maddy | Young | MY | Gofal Canser Tenovus |
| **Siaradwyr** | | | |
| Nicole | Burchill | NB | Llywodraeth Cymru |
| Richard | Davies | RD | Llywodraeth Cymru |
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru (**Cadeirydd**) |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Richard | Murphy | RM | Llywodraeth Cymru |
| Alex | Slowman | AS | Marvell Consulting |
| Stef | Taylor | ST | Llywodraeth Cymru |
| Harry | Thompson | HTh | Marvell Consulting |
| **Cofnodwyr** | | | |
| Oliver | Griffiths | OG | Llywodraeth Cymru |
| Ryan | Jones | RJ | Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | | |
| Chris | Coles | Llamau | |
| Amanda | Everson | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol | |
| Paul | Glaze | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol | |
| Fiona | Liddell | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | |

<table>
<tr><th>1</th><th>Croeso a chyflwyniadau</th><th>Camau gweithredu</th></tr>
<tr><td colspan="2">Croesawodd SH bawb, gan ddisgrifio trefn y cyfarfod heddiw.<br><br>Cyhoeddodd y byddai'r holl gyflwyniadau a phapurau'n cael eu lanlwytho ar-lein os oedd siaradwyr wedi rhoi eu caniatâd i wneud hynny.<br><br>Nododd SH y bydd Sue Leake yn camu'n ôl o Banel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector, ac y bydd MP yn ymgymryd â'i rôl fel arweinydd ymgysylltu â defnyddwyr. Diolchodd SH i Sue am ei chyfraniadau i'r Panel dros y blynyddoedd.</td><td></td></tr>
<tr><th>2</th><th>Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol</th><th></th></tr>
<tr><td colspan="2">Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a hefyd y camau gweithredu a ddeilliodd ohono. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi eu cwblhau neu eu cynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn.<br><br>Nid oedd unrhyw sylwadau pellach.</td><td></td></tr>
<tr><th>3</th><th>Cylchlythyrau Ystadegau a Demograffeg chwarterol Steph Howarth (Llywodraeth Cymru)</th><th></th></tr>
<tr><td colspan="2">Tynnodd SH sylw at rai eitemau yn y cylchlythyrau ystadegau a demograffeg chwarterol, gan gynnwys:<br><br>- Heriau i gynnal ansawdd amcangyfrifon Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd bod y cyfraddau ymateb yn gostwng.<br>- Mae allbynnau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bellach wedi'u dynodi i ystadegau swyddogol (o ystadegau swyddogol achrededig) oherwydd y gostyngiad mewn cyfraddau ymateb, ac anogodd SH unrhyw ddefnyddwyr i gysylltu â thîm ystadegau'r Farchnad Lafur i gael rhagor o gyngor ar ddefnyddio'r data hyn.<br>- Cafodd Medr ei sefydlu ar gyfer addysg ôl-16, ac mae wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyhoeddi'r ystadegau hyn.<br>- Roedd SH eisiau gwybod a yw'r data sy'n seiliedig ar y gwasanaeth Tân ac Achub yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae yna gais i ddefnyddwyr gysylltu i roi adborth.<br>Cafodd amcangyfrifon canol blwyddyn 2023 o'r boblogaeth eu diweddaru ym mis Gorffennaf.<br>- Ar ben hynny, mae'r ONS yn edrych ar ffyrdd o drawsnewid sut mae'n casglu a chyhoeddi ystadegau. Awgrymodd SH y dylid trafod y mater hwn ymhellach mewn cyfarfod yn nes ymlaen pe bai diddordeb.</td><td>Cam Gweithredu: Dylai defnyddwyr data'r sector rhentu preifat roi adborth i'r tîm ystadegau Tai drwy e-bostio ystadegau.tai@llyw.cymru<br><br>Cam gweithredu: dylai pobl sy'n defnyddio data sy'n ymwneud â Thân ac Achub gysylltu â'r tîm ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol drwy e-bostio ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru os oes ganddynt unrhyw adborth i'w roi.</td></tr>
</table>

| 4 | **Llesiant Cymru**<br>Stef Taylor (Llywodraeth Cymru) | |
|---|---|---|
| Disgrifiodd SH yr adroddiad Llesiant fel adroddiad blaenllaw pwysig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Medi, sy'n cyfuno nifer mawr o setiau data, gan roi gwybod i ddefnyddwyr am berfformiad Cymru mewn sawl maes penodol.<br><br>Cyflwynodd ST ei hun ac amlinellodd strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi sefydlu cerrig milltir cenedlaethol, nodau llesiant, a dangosyddion cenedlaethol. Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad ('Adroddiad Llesiant Cymru') ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ei nodau llesiant, gan gyfeirio at y dangosyddion a'r cerrig milltir. Disgrifiodd ST brif gasgliadau'r adroddiad eleni a dull newydd a ddefnyddir i gyfleu cynnydd. Hefyd rhoddodd enghreifftiau o sut y defnyddir yr adroddiad.<br><br>Awgrymodd ST y dylai pawb feddwl sut y gallant gymryd tystiolaeth o'r adroddiad a'i defnyddio yn eu gwaith eu hunain, a gofynnodd am adborth ar yr adroddiad.<br><br>Cododd HT y defnydd o'r dangosyddion a sut y gallent fod o fudd i'r Strategaeth Tlodi Plant, ond holodd hefyd a fyddai'n bosibl cael dadansoddiad manylach o'r dangosyddion (ee mwy o ddadansoddiadau cydraddoldeb ar gyfer menywod, plant a phobl hŷn). Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd yr Ŵyl Syniadau ar gyfer yr Economi Llesiant yn cael ei chynnal yn Abertawe ar 18 Tachwedd. | | |
| 5 | **Diweddariad StatsCymru**<br>Alex Slowman (Marvell Consulting), Nicole Burchill, a Richard Davies (Llywodraeth Cymru) | |
| Bu AS o Marvell Consulting, ynghyd ag NB ac RD o Lywodraeth Cymru, yn rhannu sleidiau ar ddatblygiad gwasanaeth newydd StatsCymru ar gyfer cael mynediad at ddata agored.<br><br>Gofynnodd AS rai cwestiynau arolwg er mwyn casglu adborth gan aelodau'r grŵp. Hefyd rhannodd AS ddau gysyniad sy'n cael eu datblygu ar gyfer datrysiad StatsCymru, gan ofyn am farn aelodau'r grŵp. Bydd yr adborth gan yr aelodau yn cael ei ddefnyddio i lywio cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol.<br><br>Mae'r sleidiau'n cynnwys dolen i randdeiliaid gofrestru a chymryd rhan mewn ymchwil i ddefnyddwyr. Hefyd cynhelir sesiynau dangos a dweud bob pythefnos i bobl eu mynychu er mwyn cael gweld y cynnydd a wneir mewn perthynas â datrysiad StatsCymru, ac adroddiadau cynnydd wythnosol yn y sleidiau.<br><br>Mae croeso ichi ofyn unrhyw gwestiynau, neu roi adborth ychwanegol ar ddatrysiad StatsCymru, neu anfon | | |

| | | |
|---|---|---|
| cwestiynau sy'n codi o'r cyflwyniad, drwy e-bostio alex.slowman@marvell-consulting.com, nicole.burchill@llyw.cymru neu richard.davies3@llyw.cymru. | | |
| **6** | **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) - adborth ar y cynnig**<br>Nia Jones a Richard Murphy (Llywodraeth Cymru) | |
| Cyflwynodd NJ ac RM o'r tîm ystadegau cyfiawnder cymdeithasol sleidiau ar ddatblygu iteriad nesaf MALlC, gan gynnwys cynlluniau i lansio arolwg defnyddwyr.<br><br>Bydd yr arolwg defnyddwyr ar agor i bobl roi sylwadau ac adborth o ddydd Llun 11 Tachwedd tan ddydd Llun 16 Rhagfyr.<br><br>Gofynnwyd i'r aelodau ymateb i'r arolwg defnyddwyr a'i rannu gydag unrhyw un yn eu rhwydweithiau a allai fod â diddordeb. Hefyd mae adroddiad sy'n amlinellu'r dangosyddion a'r newidiadau arfaethedig ar gyfer MALIC.<br><br>Nid yw'r feddalwedd a ddefnyddir ar gyfer adnodd rhyngweithiol MALlC yn cael ei gefnogi mwyach, felly ymchwilir i weld pa adnodd y gellid ei roi yn ei le. Mae aelodau o'r tîm ymchwil defnyddwyr yn chwilio am gyfranogwyr i helpu i ddeall beth yw gofynion defnyddwyr ar gyfer y system.<br><br>**Trafodaeth:**<br>Mae gan LC ddiddordeb ym mha ddata sy'n bodoli ar gyfer fforddiadwyedd tai ar lefel ardal fach, a gofynnodd a yw'r ddogfen gynnig yn amlinellu pa ddata y bwriedir eu defnyddio ar gyfer pob dangosydd.<br>Ymatebodd NJ y byddai'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer ymdrin â fforddiadwyedd tai yn dilyn yr hyn y mae Lloegr yn ei wneud. Mae methodoleg fanwl yn eu hadroddiad technegol a fydd ar gael drwy'r ddogfen gynnig. | | Cam Gweithredu: Tîm Ymchwil Defnyddwyr i ddarparu adborth ar adnodd dadansoddi rhyngweithiol WIMD newydd. |
| **7** | **Unrhyw fater arall** | |
| Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnal Cynulliad Ystadegau er mwyn dod â defnyddwyr, cynhyrchwyr, a rheoleiddwyr ystadegau ynghyd i nodi anghenion defnyddwyr a bylchau data posibl yn nhirwedd ystadegol y DU. Cynhelir y Cynulliad ar 22 Ionawr, a bu SH yn annog pobl i'w fynychu.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Mai 2025. Cysylltwch â KASevents@llyw.cymru os oes unrhyw bynciau ar gyfer agendâu yn y dyfodol neu waith i'w cyflwyno. | | |

**Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru**

7 Tachwedd 2024 - Crynodeb o'r Camau Gweithredu

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cam Gweithredu: Dylai defnyddwyr data'r sector rhentu preifat roi adborth i'r tîm ystadegau Tai drwy e-bostio ystadegau.tai@llyw.cymru | Pawb |
| 2 | Dylai'r rheini sy'n defnyddio data sy'n gysylltiedig â Thân ac Achub gysylltu â'r tîm ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol drwy e-bostio ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru os oes ganddynt unrhyw geisiadau/sylwadau. | Pawb |
| 3 | Darparu adborth ar adnodd dadansoddi rhyngweithiol MALIC newydd. | Tîm ymchwil defnyddwyr |